Daeargryn Haiti

Bu i Eglwys Annibynnol Minny Street anfon siec o £2,000 i Gronfa Argyfwng Haiti.

Haiti - y wlad dlotaf yn yr America - dim ond safon byw Swdan sydd yn is. Mae 80% y cant o drigolion Haiti yn byw mewn tlodi. Mae'n wlad sy'n dioddef yn aml o gorwyntoedd, llifogydd a thirlithriadau. Gwlad mewn dyled o dros £700 miliwn o bunnoedd. Ni all Haiti amgyffred, heb sôn am dalu hyd yn oed y ganran leiaf o hwn yn ôl. Fel 6ed Awst 1945 yn Hiroshima, 11eg Medi 2001 yn Efrog Newydd a tswnami 26ain Rhagfyr 2004 bydd Dydd Mawrth 12fed Ionawr 2010 yn cael ei gofio fel y diwrnod y dinistriwyd Haiti gan ddaeargryn Pwynt 7 ar y Gyfradd Richter. Ers hynny bu dros 30 o ôl-gryniadau. Amcangyfrifir bod ymhell dros 200,000 o drigolion Haiti wedi eu lladd, dros 2 miliwn yn ddigartref a rhyw 3 miliwn mewn angen dybryd am ofal argyfwng. Tebyg i nifer ohonom weld rhaglen ddogfen Branwen Niclas o Gymorth Cristnogol o Haiti a chael ein hysgwyd gan drueni, sioc, siom, a hyd yn oed rhywfaint o euogrwydd am yr hyn ddigwyddodd yn y wlad druenus hon ynghanol y Caribî. Dyma gael sgwrs â Branwen am yr hyn a welodd.

Bu yna dipyn o feirniadaeth bod cymorth wedi bod yn araf yn cyrraedd Haiti. Oedd hyn yn wir? Os oedd, pam? Mae'n wir i gydnabod bod cymorth wedi bod yn araf yn cyrraedd rhai ardaloedd yn ystod y dyddiau cyntaf. Ond yn fy marn i mi wnaeth yr asiantaethau waith rhyfeddol o dan amgylchiadau anodd a digynsail. Er enghraifft, dymchwelodd Swyddfa Cymorth Cristnogol yn Port au Prince, gwasgwyd y cerbyd i'r llawr a chafodd pedwar aelod o staff eu caethiwo yn y gweddillion. Ond ar ôl cael eu hachub o'r rwbel, aeth staff Swyddfa Cymorth Cristnogol ati'n syth i geisio trefnu rhaglen cymorth brys. Ac oherwydd bod gennym bresenoldeb cryf yn y wlad, a bod profiad a chynllun argyfwng gennym, 'roedd pobl yn gallu cychwyn ar y gwaith ar unwaith. Roedd partneriaid gennym hefyd yn y Weriniaeth Ddominica oedd yn gallu trefnu a dosbarthu cymorth, ac 'roedd modd dod ac angenrheidiau fel dwr glan, meddyginiaeth, blancedi, lloches brys fel tarpolin, pebyll ac ati mewn lorïau dros y tir. Hefyd, mae'n bwysig cofio bod angen cynllunio dosbarthu cymorth mewn modd trefnus - er mwyn osgoi annhegwch ac anhrefn lleol.

Sut mae Cymorth Cristnogol yn defnyddio'r arian a anfonir iddynt? Beth fydd y flaenoriaeth yn Haiti? 'Roedd Cymorth Cristnogol yn gweithio yn Haiti am 20 mlynedd cyn y ddaeargryn; yn gweithio drwy rwydwaith o fudiadau lleol i geisio gwella amodau byw pobl a grymuso cymunedau. Hyd yn oed cyn y ddaeargryn 'roedd Haiti'n wlad fregus ac argyfyngus. Hon oedd gwlad dlotaf Hemisffer y Gorllewin. Disgwyliad oed bywyd person oedd 52; dim ond 2% o bobl ifanc oedd yn gorffen addysg uwchradd a dyma le oedd cyfradd uchaf marwolaethau babanod a mamau ar enedigaeth yn y Gorllewin. Bydd gwaith Cymorth Cristnogol yn parhau yno yn bell wedi i'r camerâu teledu adael Haiti, ac i'r stori ddiflannu o dudalennau blaen y papurau newydd, ac efallai'n angof yn ein meddyliau ni. 'Rydym wedi ymrwymo i weithio yno, law yn llaw â'r cymunedau lleol, gan ein bod yn credu bod angen grymuso pobl Haiti i fod â llais cryf yn eu dyfodol democrataidd eu hunain, a bod angen cefnogi cymorth a datblygiad cynaliadwy yn y wlad. Er enghraifft, 'rydym yn annog pobl i brynu bwyd yno yn y marchnadoedd lleol gyda thocynnau bwyd, er mwyn hybu'r economi lleol. 30 blynedd yn ôl roedd Hiti yn hunangynhaliol o ran reis (tan fod reis rhad wedi ei sybsideiddio o America yn cyrraedd y marchnadoedd lleol.

Euthum i ymweld â chlinig un o bartneriaid Cymorth Cristnogol yn un o ardaloedd tlotaf Port au Prince, Carrefour Feuilles, sy'n slym o 100,000 o bobl yn byw ar un o lethrau'r brifddinas. Roedd APROFISA yn arfer rhedeg tri chlinig yno, ond chwalodd dau yn y ddaeargryn. Mae'r unig glinig sy'n sefyll yn storfa o ddeunydd brys. Felly mae'r clinigau yn cael eu rhedeg drws nesaf i'r storfa, yn yr awyr agored. 'Roedden nhw yn cynnal meddygfa o dan goeden tra 'roeddwn i yno, ac yn ymfalchïo eu bod wedi llwyddo i roi triniaeth i dros fil o bobl gydag anafiadau yn sgil y ddaeargryn. Yno hefyd maent yn arbenigo mewn rhoi cymorth tymor hir i famau a phlant sy'n dioddef o ddiffyg maeth. Collodd Dorotie Pierre bopeth heblaw ei mab yn y ddaergryn - lladdwyd ei gwr, chwalodd ei chartref a'i holl eiddo. Bellach mae hi a Thierry, sy'n naw mis oed yn cysgu ar y palmant dan darpolin. Mae hi'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu i apêl Haiti. Heb gefnogaeth APROFISA, dywedodd y byddai hi a'i mab yn llwgu. Yma cafodd ei gweld gan feddyg ar ôl y ddaergryn, yma mae'n derbyn cyngor a chefnogaeth, ac yma mae'n cael un pryd poeth y dydd ar gyfer ei hun, a bwyd maeth uchel ar gyfer Thierry.

Yn ystod eich ymweliad a Haiti, yng nghanol y dinistr a'r erchyllterau oedd yna obaith? Ym mha ffordd? 'Roedd hunan-barch ac unoliaeth anhygoel hyd yn oed yn y cymunedau mwyaf bregus. Fe welais i ysbryd anhygoel yno – cymunedau'n cyd-dynnu i helpu eraill, pobl o bob cefndir yn ymroi a chyd-weithio i gefnogi ei gilydd. Ynghanol eu trallod a'u galar, 'roedd y bobl yn byw bywydau urddasol a graslon iawn. Welais i ddim chwerwder yno am yr hyn oedd wedi digwydd, na chlywed cwyno na beio, ond 'roedd pobl yn dyheu am ddyfodol gwell, ac yn ymdrechu gyda'i gilydd er mwyn ymgyrraedd at y nod hwnnw.

Mae'n anodd darogan ble fydd y daeargryn nesaf yn digwydd? Gwyddom fod rhai rhannau o'r byd yn fwy tebygol o ddioddef daeargrynfeydd nag eraill. Beth gall asiantaethau fel Cymorth Cristnogol ei wneud yn y rhannau yma o'r byd i baratoi'r boblogaeth? Mae 80% o drychinebau byd-eang yn ganlyniad i dywydd eithafol, ac erbyn hyn mae paratoi cymunedau gyda chynlluniau "lleihau risg" yn rhan allweddol o'n rhaglen datblygiad. Mae gan nifer o'r cymunedau bwyllgorau lleol sydd wedi creu strategaeth ar gyfer lleihau risg, a chynlluniau brys i ymateb i argyfwng. Pan mae cymunedau'n cymryd cyfrifoldeb mewn sefyllfa o argyfwng mae'r canlyniadau'n well - llai o fiwrocratiaeth, llai o lygredd, mwy o drefn a thegwch, a mwy o ymwybyddiaeth gymdeithasol. Roedd pwyllgorau o'r fath yn Haiti hefyd, gan ei bod yn wlad oedd yn gorwedd ar y "llinell nam" ac a oedd a hanes o ddaeargrynfeydd yn digwydd yno. Mae'r pwyllgorau hyn yn flaenllaw iawn yn y rhaglen waith yno ar hyn o bryd.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Cymorth Cristnogol, fel nifer o elusennau eraill wedi gorfod cwtogi ar wario a gweithwyr. Ydy hyn yn mynd i effeithio ar waith yr asiantaeth ar ein rhan fel Cristnogion yng Nghymru? 'Roedd yn bwysig fod Cymorth Cristnogol yn ymateb i'r argyfwng ariannol ac mae'n ddyletswydd arnom i gynllunio'n ofalus - o ran atebolrwydd i'n partneriaid yn y gwledydd tlawd a'r sawl sy'n cyfrannu at y mudiad yma. Bu lleihad mewn incwm a bu'n rhaid cymryd rhai penderfyniadau anodd. Er hynny, nid ydym wedi colli aelodau staff yng Nghymru, a bydd ymroddiad a brwdfrydedd Cymorth Cristnogol yn parhau. Mae'r sefyllfa'n edrych yn well erbyn hyn, ac 'rydym yn edrych ymlaen at brysurdeb Wythnos Cymorth Cristnogol 2010. 'Rydym yn parhau i apelio am gefnogaeth reolaidd a thymor hir gan yr eglwysi yng Nghymru, gan ei fod yn gwneud gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth yng nghymunedau tlotaf ein byd. Diolch i haelioni eglwysi a chymunedau ehangach yng Nghymru gallwn barhau a'r gwaith o ddileu tlodi byd-eang.